YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

# POLISI DIOGELU 2020

*...mae'n gyfrifoldeb ar bawb*



Fersiwn 1 - cyf 2064

Eglwys Ddiogel Safe Church



# Polisi Diogelu Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru

## Datganiad o fwriad

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd yr eglwys yn ddiogel.

**Felly, bydd yr Eglwys yng Nghymru yn:**

- **cydnabod urddas personol a hawliau pob plentyn[1] ac oedolyn fel y nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 1989.**
- **gweithredu gweithdrefnau a chanllawiau polisïau diogelu yn gadarn ac yn gyson sy'n cydymffurfio â'r fframwaith deddfwriaethol a chanllawiau presennol ac arferion gorau a dderbynnir.**
- **hyrwyddo diwylliant sy'n gwrando ar blant ac oedolion mewn perygl.**
- **recriwtio, hyfforddi a chefnogi pawb mewn swyddi o ymddiriedaeth yn briodol.**
- **sicrhau, pan grybwyllir pryderon, eu bod yn cael eu cymryd o ddifrif ac yr ymdrinnir â hwy'n briodol.**

## Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb

Mae pawb sy'n gweithio i'r Eglwys, gan gynnwys clerigwyr, cyflogeion a gwirfoddolwyr, yn cael eu hystyried gan yr Eglwys yng Nghymru fel unigolion sy'n gweithio mewn swyddi o ymddiriedaeth yn yr Eglwys ac felly disgwylir iddynt gydymffurfio â'r polisi diogelu hwn a'r gweithdrefnau a'r canllawiau ymarfer cysylltiedig.



[1] Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio "plentyn" fel unigolyn sydd o dan 18 oed. Yn y ddogfen hon ystyr "plant" felly yw "plant a phobl ifanc o dan 18 oed".



## Cyflwyniad

Mae'r Eglwys yng Nghymru eisiau darparu amgylchedd diogel, hapus a chefnogol o genhadaeth a gweinidogaeth lle gall holl bobl Duw dyfu a datblygu yn eu hymrwymiad Cristnogol.

Mae'r rhai sy'n gweithio i'r Eglwys ac yn ei chefnogi, pobl leyg ac ordeiniedig, boed yn wirfoddolwyr neu'n cael eu talu, yn hanfodol i sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cael eu gwerthfawrogi bob amser, boed yn blant, yn oedolion mewn perygl, yn oedolion sy'n agored i niwed yng nghyd-destun yr Eglwys[2], goroeswyr camdriniaeth neu droseddwyr.

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru gyfrifoldeb i sicrhau bod holl aelodau'r eglwys, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn yr Eglwys, yn derbyn gofal ac yn cael eu hamddiffyn drwy ddarparu hyfforddiant effeithiol a chymorth priodol. I'r perwyl hwn mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i fod yn Eglwys Ddiogel.

## Egwyddorion allweddol diogelu

Mae gan bawb yr hawl i fyw eu bywyd heb orfodaeth, bygythiadau neu ormes, cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol neu ariannol ac esgeulustod. Mae gan blant ac oedolion mewn perygl yr hawl i gael eu cefnogi a'u grymuso i sicrhau llesiant a chyflawni eu potensial. Mae lles plant ac oedolion mewn perygl yn hollbwysig. Mae ganddynt yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed a cham-fanteisio.

Rhaid i unrhyw sefydliad sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sicrhau bod y bobl hynny'n cael gofal ac amddiffyniad priodol. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ymrwymo i weithredu'n ddiogel ac mewn modd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac arferion da perthnasol.

## I fod yn Eglwys Ddiogel, byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i:

- greu a chynnal diwylliant sefydliadol agored a thryloyw sy'n adlewyrchu pwysigrwydd diogelu plant ac oedolion mewn perygl.
- sicrhau bod pawb sy'n gweithio i'r Eglwys, boed wedi'u hordeinio neu'n lleygwyr a boed yn gweithio'n gyflogedig neu'n ddi-dâl, yn gweithredu'n gyfrifol a chydag uniondeb; sicrhau bod eu swyddogaeth o ymddiriedaeth yn cael ei chadarnhau ac na fanteisir ar y sawl sydd yn eu gofal.
- sicrhau bod pawb sy'n gweithio i'r Eglwys yn addas ar gyfer eu rolau gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl  drwy ddethol a hyfforddi'r rhai sydd ag unrhyw gyfrifoldeb o fewn yr eglwys yn ofalus, yn unol ag egwyddorion recriwtio mwy diogel.
- sicrhau bod unrhyw addoli, digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus yn cael eu trefnu a'u cyflwyno'n ddiogel i safon uchel; a chydag anghenion penodol plant ac oedolion sydd mewn perygl mewn golwg.
- sicrhau bod yr holl ofal bugeiliol yn cael ei ddarparu'n ddiogel.
- hyrwyddo arferion mwy diogel ym mhob gwaith a wneir gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl.
- gwrando o ddifrif ac ymateb yn briodol i bob pryder, datgeliad neu honiad sy'n awgrymu y gallai plentyn neu oedolyn mewn perygl fod wedi cael ei niweidio neu y gallai gael ei niweidio, gan gynnwys drwy gynnwys yr awdurdodau statudol.

[2] Yn y ddogfen hon, mae oedolion sy'n agored i niwed yng nghyd-destun yr Eglwys yn cyfeirio at rywun nad yw'n bodloni diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o oedolyn mewn perygl ond sy'n agored i niwed oherwydd amgylchiadau penodol, gan gynnwys yng nghyd-destun cam-drin ysbrydol.



- sicrhau bod pob cwyn yn cael ei thrin yn brydlon ac yn gadarn yn unol â’r gyfraith ac yn unol ag arferion gorau.
- sicrhau bod y rhai sydd wedi cael eu cam-drin neu eu niweidio yn cael cymorth diogel yng nghymunedau ein Heglwys a’n bod ni’n dysgu gwersi o’r gorffennol i gryfhau prosesau diogelu.
- sicrhau bod hawliau troseddwyr i addoli yn cael eu hystyried yng nghyd-destun cytundebau diogelu cadarn a chymesur.
- herio unrhyw achos o gam-drin pŵer, yn enwedig gan unrhyw un sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth.
- adolygu ein polisi, ein gweithdrefnau gweithredol a’n canllawiau ymarfer yn barhaus.

## Tîm Diogelu Taleithiol

Mae’r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i reoli pryderon diogelu a hyrwyddo diogelu drwy ei Thîm Diogelu Taleithiol.

Bydd Swyddog Diogelu Taleithiol yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ymdrin ag unrhyw bryderon, datgeliadau a honiadau o natur ddiogelu a adroddir. Os caiff pryder ei gyfeirio’n uniongyrchol at yr awdurdodau statudol, dylid hysbysu Swyddog Diogelu Taleithiol cyn gynted ag y bo’n ymarferol. Bydd y Swyddog Diogelu Taleithiol yn parhau mewn cysylltiad â’r heddlu a/neu adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol hyd nes y daw ymholiadau ac ymyriadau statudol dilynol i ben.

Bydd y Swyddog Diogelu Taleithiol yn rhoi gwybod i bobl berthnasol am gamau gweithredu a phenderfyniadau yn ystod ac yn dilyn y broses statudol. Yn benodol, bydd y Swyddog Diogelu Taleithiol yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Panel Diogelu Daleithiol am yr holl weithgarwch diogelu ac yn cyfleu diweddariadau ac argymhellion achosion i Esgobion fel y bo’n briodol, oni bai bod hyn yn creu gwrthdaro buddiannau.

## Rhoi’r polisi ar waith

Mae’r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i fabwysiadu, gweithredu ac adolygu’r polisi hwn. Rhaid i bob rhan o’r Eglwys ystyried y polisi hwn, sy’n llywio’r holl weithgarwch diogelu ar draws y Dalaith ac sy’n sail i ymrwymiad yr Eglwys i wella arferion diogelu’n barhaus. Rhaid i Eglwysi, Buddiolwyr, Ardaloedd Gweinidogaeth a Chenhadaeth ac Esgobaethau yn yr Eglwys yng Nghymru fabwysiadu, hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i’r polisi hwn.

Dylai unrhyw amheuaeth, pryder, gwybodaeth, datgeliad neu honiad o gam-drin gael eu hadrodd ar unwaith i Dîm Diogelu Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru neu, mewn argyfwng i’r awdurdodau statudol.

**Os oes gennych wybodaeth am sefyllfa ddiogelu lle mae plentyn neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol neu angen sylw meddygol brys, ffoniwch y gwasanaethau brys ar 999 – PEIDIWCH AG OEDI.**

**Os credwch fod plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed ond nad yw mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.**



## A fyddech cystal â chwblhau ac arddangos y poster ar y dudalen nesaf os gwelwch yn dda



Eglwys Ddiogel Safe Church

# Polisi Diogelu Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru

**Eglwys / Plwyf / Ardal Gweinidogaeth / Ardal Genhadaeth**

Enw: ..........................................................................................................

## Datganiad o fwriad

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd yr eglwys yn ddiogel.

**FELLY, BYDD YR EGLWYS YNG NGHYMRU YN:**

- **cydnabod urddas personol a hawliau pob plentyn ac oedolyn fel y nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 1989.**
- **gweithredu gweithdrefnau a chanllawiau polisïau diogelu yn gadarn ac yn gyson sy'n cydymffurfio â'r fframwaith deddfwriaethol a chanllawiau presennol ac arferion gorau a dderbynnir.**
- **hyrwyddo diwylliant sy'n gwrando ar blant ac oedolion mewn perygl.**
- **recriwtio, hyfforddi a chefnogi pawb mewn swyddi o ymddiriedaeth yn briodol.**
- **sicrhau, pan grybwyllir pryderon, eu bod yn cael eu cymryd o ddifrif ac yr ymdrinnir â hwy'n briodol.**

## Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb

Mae pawb sy'n gweithio i'r Eglwys, gan gynnwys clerigwyr, cyflogeion a gwirfoddolwyr, yn cael eu hystyried gan yr Eglwys yng Nghymru fel unigolion sy'n gweithio mewn swyddi o ymddiriedaeth yn yr Eglwys ac felly disgwylir iddynt gydymffurfio â'r polisi diogelu hwn a'r gweithdrefnau a'r canllawiau ymarfer cysylltiedig.

**www.churchinwales.org.uk/safeguarding**

*Derbyniwyd y Polisi hwn gan y Cyngor Plwyf Eglwysig ar: .................................................... ac fe'i hadolygir yn flynyddol.*

*Llofnod: ............................................................................................................. ar ran y Cyngor Plwyf Eglwysig.*

***I wneud ymholiadau diogelu cyffredinol, cysylltwch â:***

Swyddog Diogelu **YR ARDAL WEINIDOGAETH / GENHADAETH**:

Enw: ........................................................................... Rhif cyswllt: ...................................................

Swyddog Diogelu'r **EGLWYS**:

Enw: ........................................................................... Rhif cyswllt: ...................................................

***I siarad â rhywun am bryder, honiad neu ddatgeliad diogelu, cysylltwch â'r:***

Swyddog Diogelu **TALEITHIOL**:

Enw: ........................................................................... Rhif cyswllt: ...................................................

I roi gwybod am bryder, honiad neu ddatgeliad diogelu i'r Tîm Diogelu Taleithiol, ewch i:
**churchinwales.org.uk/cy/safeguarding/reporting-safeguarding-concern**

- Dylai pob amheuaeth, pryder, gwybodaeth, datgeliad neu honiad o gam-drin gael eu hadrodd ar unwaith i Dîm Diogelu Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru neu, mewn argyfwng i'r awdurdodau statudol.
- Os oes gennych wybodaeth am sefyllfa ddiogelu lle mae plentyn neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol neu os oes angen sylw meddygol brys arnoch, ffoniwch y gwasanaethau brys ar 999 – PEIDIWCH AG OEDI.
- Os credwch fod plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed ond nad yw mewn perygl ar unwaith, ffoniwch adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.